**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

16 Mehefin 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwyf yn eich hysbysu bod yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym (yn rhannol) ar ddiwrnod ei wneud ac (yn llawn) lai na 21 diwrnod o ddyddiad ei osod. Atodir y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau er eich gwybodaeth.

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion ar y rheini sy'n gweithredu gwasanaethau cludiant masnachol ar gyfer teithwyr sy'n teithio i Gymru dros y môr neu yn yr awyr, lle bo'r teithwyr hynny'n dod o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon).

Gosodir gofyniad ar weithredwyr i sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth i bob teithiwr am goronafeirws a'r gofynion cysylltiedig sy'n gymwys iddynt (megis y gofyniad i hunanynysu os ydynt yn dod i Gymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin), yn ogystal â gwybodaeth am y canllawiau iechyd cyhoeddus. Rhaid rhoi'r wybodaeth i deithwyr cyn iddynt archebu'u taith, wrth iddynt gofrestru ac yn ystod eu taith ar fwrdd y cwch neu'r awyren.

Yr amcan yw caniatáu i'r rheini sydd am deithio i Gymru allu dewis yn ddoeth a ddylent gwblhau'u taith a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mesurau iechyd cyhoeddus a gymerir i leihau lledaeniad Covid-19 a chynyddu cydymffurfiaeth â'r mesurau hynny.

Mae'n bwysig bod Maes Awyr Caerdydd yn barod i dderbyn hediadau o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin yr un pryd â gweddill diwydiant hedfan y DU er mwyn iddo allu cadw ei le yn y farchnad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae gwaith ar bolisi ar y cyd ar deithio rhyngwladol wedi cael ei arwain gan Lywodraeth y DU, mewn cydweithrediad â’r Llywodraethau Datganoledig, i ddatblygu ymagwedd gyffredin ar draws y DU. Mae’r ymagwedd hon wedi golygu bod llywodraethau’r 4 gwlad wedi cytuno i gyflwyno’r hyn sy’n cyfateb i’r Rheoliadau hyn. Daeth Rheoliadau Lloegr a’r Alban i rym ar 8 Mehefin, felly hefyd Reoliadau Statudol Gogledd Iwerddon. Mae’r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 y bydd angen iddynt, er sicrhau eglurder cyfreithiol, ddod i rym ar unwaith. Daw’r darpariaethau eraill i rym ar ôl gosod yr offeryn.

Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 niwrnod y tro hwn yn golygu y caiff y Rheoliadau ddod i rym ar 17 Mehefin 2020 ac oherwydd y posibiliad y gall hediadau ailddechrau ac er mwyn parhau â’r ymagwedd unedig a chysondeb â gweddill y DU, bernir bod y cyfnod byrrach yn angenrheidiol yn yr achos hwn a bod modd ei gyfiawnhau.

Gan fod angen y Rheoliadau hyn ar gymaint o fyrder, ni chynaliwyd ymgynghoriad arnynt er bod Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Llywodraeth y DU a’r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn ogystal â Maes Awyr Caerdydd.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi’i baratoi ac mae wedi’i osod gyda’r Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennnaeth Gwasanaeth y Siambr a’r Pwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd